



HANES GWYDR LLIW TREFORYS

-GARETH RICHARDS, CYMDEITHAS GYMRAEG TREFORYS

Sgwrs hynod ddiddorol a dadlenol Steffan Phillips gafwyd ddiwedd Medi. Mae Steffan, sy'n Eiriolwr Iechyd Meddwl, wedi ymgartrefu yn Nhreforys ers blynnyddoedd ac yna mae gwreiddiau ei deulu ar ochr ei dad, y diweddar Dewi Z. Phillips.

Bu'n ymchwilio i hanes Celtic Studios a leolwyd yn Nhreforys, y cwmni cyntaf yng Nghymru i greu a chynhyrchu gwyrdd lliw. Sefydlwyd yn 1948 gan Howard Martin (1907-72) a'i gefnder Hubert Thomas (1913-95), er iddynt gyd-weithio yn y 1930au.

Bu Howard Martin yn bennaeth ar yr adran wydr lliw pensaernïol yn Swansea School of Arts and Crafts.

Bu'r cwmni yn gyfrifol am greu dros 650 o ffenestri lliw, nifer ohonynt yn Nhreforys, Abertawe a de Cymru ond mae rhai yng ngogledd Cymru, Lloegr a Gogledd America. Serch hynny allforiwyd trydydd o'u cynnyrch i Ganada lle mae'r gweithiau gorau. Mae gweithiau Bryan Tobias Evans, a fu'n grefftwr yn Celtic Studio rhwng 1949 a 1991 yn gywrain iawn.

Diolchwyd i Steffan am ei gyflwyniad ardderchog a'r arddangosfa o luniau trawiadol gan Eirian Wyn, Llywydd y Gymdeithas a Rhian Williams. Roedd yn dda cael hanes y crefftwyr arbennig yma fu'n creu campweithiau yn Nhreforys.



Braf oedd cael cwmni David Gwyn John, Ysgrifennydd y Gymdeithas wedi ei anhwylder diweddar. Pob dymuniad da David.

"Gwroldeb, Aberth, Gwobr" : Ffenestr liw Seion Newydd, Treforys i goffau'r Ddau Ryfel Byd. Un o nifer o weithiau safonol 'Celtic Studios' sydd wedi ei leoli yn Nhreforys.

MARWOLAETH MORLAIS WILLIAMS

Mae tristwch yn Nhreforys ac Abertawe wedi marwolaeth Morlais Williams. Roedd yn wr hawddgar a phoblogaidd, yn hoff o gwmni ac yn driw i Dreforys. Roedd ganddo hefyd gysylltiadau cynnes yn y dwyrain pell. Braf yw derbyn englyn gan Huw Dylan Owen, sydd wedi byw yn Nhreforys am flynyddoedd lawer, ac sy'n awr yn gyfarwyddwr gwasanaethau cymdeithasol Gwynedd.

Morlais Williams (1934 - 2025)

Hirlwm yw byd heb Morlais - heb y wên,

heb ei hoen mor gwrtais

a'i hwyliau'n hael ddifalais,

Haul neu law fe glywn ei lais.

Sgwrsio Cymraeg



Bob bore lau, 10-12	Thursdays, 10-12
LLYFRGELL TREFORYS	MORRISTON LIBRARY
Paned am ddim	Free hot drinks
Parcio am ddim	Free parking
Sgwrsio i bawb sy'n	Welsh conversation
siarad ac yn dysgu	for speakers and learners

CYMDEITHAS GYMRAEG LLANDEILO FERWALLT
-MARTIN ROBERTS



Cynhaliwyd cyfarfod cyntaf ein tymor newydd ar y 20fed o Hydref. Agorwyd y cyfarfod gan ein Cadeirydd, Yr Athro Prys Morgan, yn ei arddull digyfelyb cyn cyflwyno ein dyn gwadd, Andrew Green, cyn-lyfrgellydd Llyfrgell Genedlaethol Cymru. Yn 2024, cyhoeddodd Andrew "Voices on the Path", y llyfr cyntaf i adrodd hanes cerdded yng Nghymru, ac esboniodd e i'r llyfr ddod a dau o'i diddordebau mawr at ei gilydd, sef ysgrifennu a cherdded. Yn ei sgwrs hynod o ddiddorol, siaradodd Andrew am dair o themâu'r llyfr: pererindodau, cerdded torfol, a cherddwyr enwog.

O ran pererindodau, esboniodd Andrew fod llawer o safleoedd sanctaidd yng Nghymru, gan gynnwys Penrhys yng Nghwm Rhondda, Pennant Melangell, Ynys Enlli, a Thŷ Ddewi. Ac wrth gwrs, cerdded oedd yr unig ffordd y gallai pobl gyffredin gyrraedd y safleoedd yr oedden nhw'n ymweld â nhw am resymau crefyddol, ysbrydol, a hefyd meddygol – sef i gael eu gwella o ryw anhwylder neu anabledd.

Yn y ail ran o'r sgwrs, clywsom ni sut, ar ôl y Chwyldro Diwydiannol, daeth cerdded torfol yn ffordd o wneud pwynt neu ffordd o brotestio, a chyfeiriodd Andrew at ddigwyddiadau fel gwrthryfel Merthyr, terfysgoedd Rebeca, a siartwyr Casnewydd yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg, ac at brotestiadau yn erbyn y llywodraeth yn torri budd-dal diweithdra ym 1935.

Gorffennodd Andrew ei sgwrs gan siarad am rhai o'r bobl enwog sy wedi cerdded yng Nghymru dros y blynyddoedd, gan gynnwys George Borrow (awdur Wild Wales), a beirdd fel Coleridge, Gerard Manley Hopkins, a Robert Graves. Cyfeiriodd Andrew hefyd at lyfr ymadroddion Thomas Roberts (wedi'i gyhoeddi ym 1831) a gynhwysodd rhan wedi'i anelu at y rhai â diddordeb mewn cerdded yn y mynyddoedd a oedd yn cyfieithu'r fath ymadroddion defnyddiol fel: "Must I have nails in my shoes to ascend that mountain?" (A rhaid i mi gael hoelion yn fy esgidiau i esgyn y mynydd yna?) a "You are giddy because you look down" (Yr ydych chi wedi pendroni o ran i chwi edrych i lawr)!

Noson lwyddiannus iawn sy'n argoel'n dda ar gyfer gweddill y flwyddyn. Rydyn ni'n edrych ymlaen at groesawu Andrew yn ôl yn y dyfodol.

Cynhelir ein cyfarfod nesaf yn Neuadd Murton am 19.00 ar 17eg o Dachwedd pan fydd ein cadeirydd yn siarad am: "O Gwm Tawe i'r Maes D'Orsay." Dewch yn llu i ddysgu sut helpodd chwys a gwaith caled gweithwyr ardal Abertawe i ariannu llawer o'r paentiadau sydd i'w gweld ym Mharis.

NOSON GAROLAU CÔR Tŷ TAWE

Noson o gerddoriaeth a chân yng nghwmni
Côr Tŷ Tawe, côr Cymraeg Abertawe.

Croeso cynnes i bawb.

£5

Nos Lun, Rhagfyr 15fed | 19:30
Tŷ Tawe, Abertawe, SA1 4EW



BYD NATUR MIS TACHWEDD

-PATRICK SOPER

Ymwelwyr cyffredin a chroeso dros ben i'n gerddi yw adar duon ac, wrth chwilio am rywbeth blasus i'w fwyta, maen nhw'n ddigon

dewr i ddod o fewn llathen ohonon ni sy'n mynd ati'n palu neu'n torri'r lawnt, ayb - maen nhw'n gobeithio y bydd abwydyn neu rywbeth tebyg yn dod i'r golwg.



Yr Aderyn Du

Mae gan yr adar gwryw plu du gloyw, pig melyn (pig du yn ystod y gaeaf cyntaf) a chylchoedd melyn o gwmpas ei lygaid. Brown a melfedaidd yw plu'r adar benyw, a'r adar ifanc yn debyg ond gyda brest frith.

Yn bennaf y fenyw sy'n adeiladu'r nyth lle bydd hi'n dodwy ei hwyau, rhwng tri a phedwar ohonyn nhw, ym mis Mawrth neu Ebrill. Dechreuad'r cywion adael y nyth ymhen pythefnos ond byddan nhw'n aros ac yn dibynnu ar eu rhieni am ryw dair wythnos yn rhagor.

Mae'r adar atyniadol hyn gyda'u cân felys yn byw dros ardal helaeth Ewrop cyn belled i'r gogledd â blaen mwyaf deheuol y penrhyn Llychlyn, a chyn belled i'r de â gogledd Affrica. Mae'r adar duon sy'n byw mewn ardaloedd oer Ewrop yn tueddu treulio'r gaeaf yma yn y DU lle mae tywydd yn fwynach.



Peradyl Blewog

Ymddangosa'r blodau peradyl blewog ym mis Mehefin a gallan nhw'n parhau tan fis Tachwedd, yn enwedig mewn lleoedd gwelltog gweddol sych, ac ar dwyni tywod.

Planhigion lluosflwydd brodorol ac yn ddigon tebyg i ddannedd y llew ydyn nhw, ac yn aelod o deulu llygad y dydd.

Yn gyffredin ym mhob man yn hanner deheuol y DU, maen nhw'n brinnach yn bellach i'r gogledd, ond yn raddol maen nhw'n ymestyn eu cynefin.

Cafodd peradyl blewog ei gyflwyno i Awstralia ac America lle mae wedi dod yn blanhigyn goresgynnol erbyn hyn, ac yn fygythiad i rywogaethau brodorol.

Planhigyn lluosflwydd brodorol arall sy'n helaethu ei gynefin i ardaloedd gogleddol yr ynysoedd hyn yw marddanhadlen wen. Mae aelod hon y teulu mintys yn gallu tyfu i ryw bymtheg modfedd o uchder ac mae'n gyffredin ar ymylon ein ffyrdd ac yn ein porfeydd a chyrion ein coedwigoedd.



Marddanhadlen wen

Mae marddanhadl gwnïon yn debyg iawn i ddanadl poethion, heblaw eu bod yn cynhyrchu blodau gwynion atyniadol rhwng mis Mawrth i fis Rhagfyr sy'n amgylchynu'r coes bob hyn a hyn. Tarddle neithdar a phaill yw'r blodau hyn, a ganddyn nhw dipyn bach o bersawr melyn - yn wahanol iawn i flodau bach a dinodgwynion neu wyrddion y danadl poethion.

NEWYDDION YSGOL GYFUN GYMRAEG BRYN TAWE

GŴYL LENYDDIAETH PLANT A PHOBL IFANC ABERTAWE

-MEINIR JONES, PENNAETH YR ADRAN GYMRAEG

Cynhaliwyd sesiwn hyfryd yn Amgueddfa'r Glannau gyda'r awdur Manon Steffan Ros fel rhan o Ŵyl Llenyddiaeth Plant a Phobl Ifanc Abertawe. Mwynhaodd ein disgyblion o Ysgol Bryn Tawe yn fawr!



TAITH I'R LLYFRGELL GENEDLAETHOL

-MEINIR JONES, PENNAETH YR ADRAN GYMRAEG

Cafodd llond bws o fl.7 Ysgol Gyfun Gymraeg Bryn Tawe gyfle i fynd i'r Llyfrgell Genedlaethol yn Aberystwyth. Cawsant weld rhai o drysorau'r Llyfrgell, mynd ar daith o gwmpas y storffeydd a chyfle i ymweld ag Archif Ddarlledu Cymru. Roedd yr ymweliad â McDonalds ar y ffordd adref wedi plesio hefyd!



DATHLIADAU DIWRNOD SHWMAE
-MEINIR JONES, PENNAETH YR ADRAN GYMRAEG

Fel rhan o ddathliadau Diwrnod Shwmae Ysgol Bryn Tawe, cynhaliwyd sesiwn i ddysgu Cymraeg i rieni a ffrindiau'r ysgol ar ôl ysgol. Cyflwynodd y disgyblion gemau gwahanol megis bingo bwyd, gêm ddomino pynciau'r ysgol, gêm 'Dyfalgwch Pwy?' a gêm y corff er mwyn dysgu rhai geiriau a phatrymau iaith i'r rhieni a ffrindiau. Cafwyd hwyl yn chwarae cwis kahoot ar ddiwedd y sesiwn a mwynhau ambell fisgien!



PENODI LLYSGENHADON Y COLEG CYMRAEG YM MRYN TAWE I HYRWYDDO'R GYMRAEG
-CATRIN LYALL, IS-BENNAETH Y CHWECHED

Pleser ydy cyhoeddi bod dwy o ddisgyblion Chweched Dosbarth bryn Tawe wedi cael eu dewis yn Llysgennad Ysgol Y Coleg Cymraeg ar gyfer blwyddyn academiaidd 2025-26.

Mewn cydweithrediad â'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol rôl y llysgenhadon fydd codi ymwybyddiaeth eu cyd-ddisgyblion a phobl ifanc o'r manteision i barhau gyda'u sgiliau Cymraeg ar ôl gadael yr ysgol.

Ymhlith y criw newydd eleni yn Mryn Tawe mae Hannah Thomas o fl 12 a Kitty Walton o fl 13.

Mae 32 o lysgenhadon wedi eu penodi gan y Coleg eleni ar draws 21 ysgol ledled Cymru a bydd eu gwaith fel llysgenhadon yn dechrau yn syth.

Bydd y gwaith yn cynnwys rhannu negeseuon yn eu hysgol am fanteision defnyddio'r Gymraeg, cynrychioli'r Coleg a'u hysgol mewn digwyddiadau cenedlaethol amrywiol, yn ogystal â chreu cynnwys ar y cyfryngau cymdeithasol i ddylanwadu ar eu cyfoedion.

**LLYSGENHADON
YSGOL
2025-26**

COLEG CYMRAEG CENEDLAETHOL

Llongyfarchiadau i Kitty a Hannah o Ysgol Bryn Tawe ar gael eu dewis fel 2 o'r 32 Llysgennad Ysgol i'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol.

Eu prif rôl ydy codi ymwybyddiaeth eu cyd-ddisgyblion a phobl ifanc o'r manteision i barhau gyda'u sgiliau Cymraeg ar ôl gadael yr ysgol.



Rydyn ni'n falch iawn o gael bod yn rhan o'r cynllun eleni, yn dilyn bod yn rhan ohono yn 2021 a 2023. Yn wir mae Hannah yn dilyn ôl traed ei dau frawd, Jack a Steffan a gyflawnodd y rolau yn ystod eu cyfnod yn y Chweched.

Llongyfarchiadau ferched!

CADET ARGLWYDD RAGLAW GORLLEWIN MORGANNWG
-CATRIN LYALL, IS-BENNAETH Y CHWECHED

Llongyfarchiadau mawr i Sally Corbett o flwyddyn 12 ar gael ei dewis i fod yn un o gadetiaid Arglwydd Raglaw Gorllewin Morgannwg ar gyfer y flwyddyn 2025-2026.

Mae hon yn rôl sy'n dod â braint fawr, ac sy'n cael ei pharchu'n fawr, fel yr oedd rôl flaenorol Sally fel cadet yr Arglwydd Faer ar gyfer Dinas a Sir Abertawe.



CODI DROS £3000!
-CATRIN LYALL, IS-BENNAETH Y CHWECHED

Eleni mae Lewis, Rhys, Ioan ac Iestyn wedi bod wrthi yn codi arian i'r wardiau a'r elusennau sydd wedi cefnogi eu mam trwy ei thriniaeth ar gyfer cancr y fron. Ar ddechrau mis Hydref cawson nhw'r cyfle i gyflwyno'r arian pan wnaethon nhw ymweld ag Ysbyty Singleton. Cyflwynwyd £1500 yr un i'r ddwy ward yn yr ysbyty a £150 i elusen Cancer Research UK.

Rydyn ni mor falch o'ch ymdrechion



NOSON GWIS

Ymunu â ni
Join Us



Ymunu gyda ni am noson gwis. Bach o sbort a chyfle i brofi eich gwybodaeth! Croeso i bawb!
Join us for our monthly quiz night! Test your knowledge, have some fun and practise your Welsh.

Tŷ Tawe, Stryd Christina, SA1 4EW

www.menterabertawe.org

PARTI NADOLIG PLANTAE

12/12/25 13:00-15:00

**FORGE FACH, CLYDACH
SA6 5EJ**

**YMWELYDD ARBENNIG!
SPECIAL GUEST!**

**CREFFT
CRAFTS**

**AM DDIM!
FREE!**

**AMSER CANU
SONG TIME**

DIM ANGEN BWCIO/ NO NEED TO BOOK
CYMNED@MICNPT.CYMRU

Cyswllt: 01639 763819 | menter@micnpt.cymru | Rhif Cwmni 6156176

COFFI

CAFFI Tŷ Tawe

10:30YB-12:00YP

SGWRS



Cyfle i sgwrsio dros baned.
Pop in for a cuppa!

**MAWRTH - GWENER
TUE - FRI**

Tŷ Tawe, 9 Stryd Christina, SA1 4EW



MENTER IAITH ABERTAW

CWRW A CHLONC

27/11 19:00

**NOS IAU OLAF POB MIS. GEMAU BURDD A CHYFLE I
GYMDEITHASU. BAR AR AGOR!**

**LAST THURSDAY OF THE MONTH. BOARD GAMES AND
A CHANCE TO SOCIALISE YN Y GYMRAEG. SUITABLE
FOR NEW SPEAKERS OF ALL LEVELS.**

Tŷ Tawe, 9 Stryd Christina, SA1 4EW

Diolch yn fawr i'n cyfranwyr ar gyfer rhifyn Tachwedd.
Menter Iaith Abertawe sydd yn coladu straeon Wilia. Plis danfonwch unrhyw beth a allai fod o ddiddordeb i'n darlennwyr ar gyfer rhifyn Rhagfyr erbyn Tachwedd 24ain trwy ebostio Anys at:

datblygu@menterabertawe.org

Neu anfonwch eich lluniau/straeon at dudalen Facebook Wilia.



Dysgu
Learn



Ariennu yn Rhannol gan
Llywodraeth Cymru
Part Funded by
Welsh Government

DYDD
MIWSIG
CYMRU | WELSH
LANGUAGE
MUSIC DAY

TALIESIN X MENTER IAITH ABERTAWE YN CYFLWYNO

BWNGATH

+ MARTHA ELEN

TOCYNNAU £15 TICKETS

SIOE YN CYCHWYN 19:30
SHOW STARTS AT 19:30

13.02.2026

TALIESIN ARTS CENTRE, ABERTAWE

Tocynnau: taliesinartscentre.co.uk



Taliesin